

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL ETHOLIADAU

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Etholiadau ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Gorffennaf 2021. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd i'w weld yn:
<https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-02/0138/210138.pdf>

Amcan(ion) Polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw gwneud darpariaeth newydd ar gyfer y gyfraith etholiadol bresennol a'i diwygio.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan Swyddfa'r Cabinet.
5. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer y canlynol:
 - Gofyniad am brawf adnabod ar gyfer pleidleiswyr yn etholiadau seneddol y DU, mewn etholiadau lleol yn Lloegr ac yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru a Lloegr;
 - Mesurau diogelu ar gyfer pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy;
 - Egluro a diweddarau'r gyfraith ar ddylanwadu'n ormodol ar etholwyr;
 - Egluro a diweddarau'r gyfraith ar y cymorth sydd ar gael i bleidleiswyr ag anabledd;
 - Dileu'r terfyn o 15 mlynedd ar arfer hawliau pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU sydd wedi'i osod ar hyn o bryd ar etholwyr Prydeinig sy'n byw dramor, a gwneud diwygiadau i'r broses gofrestru;
 - Cyflwyno rheolau ar gyfer hawliau dinasyddion yr UE i bleidleisio ac i fod yn ymgeiswyr mewn etholiadau lleol yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr ac yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru a Lloegr;
 - Diwygio'r darpariaethau presennol ar gyfer atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol i Senedd y DU;
 - Diwygio'r darpariaethau presennol ynghylch cyllid gwleidyddol a gwariant mewn etholiadau;
 - Cyflwyno gorchymyn anghymhwysu newydd os yw person yn cael ei gollfarnu o drosedd fygythiol;
 - Gofyniad i ddeunydd ymgyrchu digidol arddangos argraffnod digidol;

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

Dylanwad gormodol (cymal 7 ac atodlen 4)

6. Mae'r Bil yn egluro'r gweithgareddau sy'n gyfystyr â dylanwad gormodol drwy ddiwygio Adran 115 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Bydd dylanwad gormodol hefyd yn parhau i fod yn arfer llwgr, sy'n golygu, os yw person yn euog o ddylanwad gormodol mewn cysylltiad ag unrhyw ddigwyddiad etholiadol yn y DU, na fydd yn gallu cael ei ethol i unrhyw un o'r swyddi etholiadol perthnasol yn y DU am bum mlynedd, na dal swydd o'r fath.
7. Mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gan eu bod yn ymwneud â chynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, ac ag analluogrwydd sy'n ymwneud ag ethol rhywun i swydd aelod o'r Senedd neu i swydd etholedig mewn Lywodraeth Leol yng Nghymru, neu ddal swydd o'r fath.

Cymhwysedd Pleidleisio ac Ymgeisyddiaeth Dinasyddion Ewropeaidd (cymal 11 ac Atodlen 7)

8. Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn am gytundebau gydag Aelod-wladwriaethau'r UE a fydd yn galluogi gwladolion y DU sy'n byw yn y gwledydd hynny i bleidleisio a sefyll yn eu hetholiadau lleol yn gyfnewid am hawliau pleidleisio ac ymgeisyddiaeth leol i ddinasyddion y gwledydd hyn sy'n byw yn y DU. Cytunwyd eisoes ar gytundebau pleidleisio gyda Sbaen, Portiwgal, Lwcsembwrg a Gwlad Pwyl. Bydd dinasyddion yr UE sydd wedi bod yn byw yn y DU ers cyn diwedd y Cyfnod Gweithredu yn cadw eu hawliau pleidleisio a'u hymgeisyddiaeth leol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ar yr amod bod ganddynt statws mewnfudo cyfreithlon, p'un a ydynt yn ddinasyddion Aelod-wladwriaethau y mae gan y DU gytundebau hawliau pleidleisio ac ymgeisyddiaeth â hwy ai peidio. Ar gyfer dinasyddion yr UE a gyrrhaeddodd y DU ar ôl yr adeg hon, bydd hawliau pleidleisio ac ymgeisyddiaeth yn dibynnu ar yr egwyddor o roi hawliau cilyddol, drwy gytundebau â'r Aelod-wladwriaethau perthnasol. Bydd y Bil yn dileu'r arfer presennol o roi hawliau pleidleisio ac ymgeisyddiaeth yn awtomatig.
9. Er mai dim ond i etholiadau a gadwyd yn ôl y bwriedir i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys, mae Atodlen 7 o'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn diwygio'r ddarpariaeth bresennol yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn y fath fodd fel bod y darpariaethau sy'n gymwys i'r etholfraint ddatganoledig yn cael eu diddymu, gan wneud newidiadau felly o ran y rhai sydd â hawl i gofrestru ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a'r Senedd a phleidleisio ynddynt. Mae newidiadau i'r darpariaethau i gywiro'r effeithiau anfwriadol ar etholiadau datganoledig Cymru yn cael eu trafod gyda Llywodraeth y DU.

Y Comisiwn Etholiadol (cymal 12 a chymal 13)

10. Mae cymal 12 o'r Bil yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) i wneud darpariaethau ar gyfer

pŵer i ddynodi Datganiad Strategaeth a Pholisi, a gaiff ei ddrafftio gan Lywodraeth y DU ac a fydd yn amodol ar gymeradwyaeth Seneddol. Cyn y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddynodi'r datganiad, rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar y drafft, i'r graddau y mae'r drafft yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn sydd wedi'u datganoli i Gymru. Fodd bynnag, mater i'r Ysgrifennydd Gwladol yw gwneud unrhyw newidiadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

11. Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i'r datganiad wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau ac mae'n ofynnol iddo gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ba gamau y mae wedi'u cymryd mewn perthynas â'r datganiad. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu'r datganiad yn ôl cylch 5 mlynedd a chaiff ddiwygio'r datganiad heb ymgynghori â Gweinidogion Cymru.
 12. Mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gan y bydd angen i'r Comisiwn Etholiadol roi sylw i'r Datganiad Strategol a Pholisi wrth gyflawni swyddogaethau'r Comisiwn sydd wedi'u datganoli i Gymru.
 13. Mae Cymal 13 o'r Bil yn mewnosod adran newydd yn 13ZA o (PPERA) i ddiwygio swyddogaethau Pwyllgor y Llefarydd er mwyn gwella ymhellach atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol i Senedd y DU. Bydd y pŵer craffu cyffredinol hwn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, archwilio a yw'r Comisiwn Etholiadol yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i roi sylw i'r Strategaeth a'r Datganiad Polisi fel y'i cyflwynwyd gan y Bil hwn.
 14. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn rhoi adroddiadau i Senedd Cymru, drwy Bwyllgor y Llywydd, ar ei amcangyfrifon a'i gyfrifon blynyddol a'i Gynllun Pum Mlynedd lle bo'r rhain yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn sydd wedi'u datganoli i Gymru. Gan y gallai'r pŵer cyffredinol hwn i Bwyllgor y Llywydd oruchwyllo swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol ymwneud ag etholiadau datganoledig, ystyrir bod angen cydsyniad y Senedd.
- Gwariant tybiannol** (cymalau 16(1), 16(5), 17(2) a 18)
15. Mae'r Bil hwn yn egluro'r gyfraith fel nad oes ond angen i ymgeiswyr roi gwybod am fuddion mewn da y maent wedi'u defnyddio mewn gwirionedd, neu wedi rhoi cyfarwyddyd i rywun arall eu defnyddio, ac felly nid yw'n cynnwys y cyfrifoldeb am fuddion nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth amdanynt. Bydd yr eglurhad hwn hefyd yn cael ei estyn i ymgyrchwyr eraill sy'n destun rheolaethau ar wariant tybiannol. Byddai gwariant sy'n hyrwyddo ymgeisyddiaeth unigol yn parhau i gyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgeisydd ei hun.
 16. Mae cymal 16(1) o'r darpariaethau hyn sy'n diwygio adran 90C o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y maent yn ymwneud â chymhwyso'r rheolau ar wariant ymgyrchu ar gyfer ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol datganoledig yng Nghymru.

17. Mae cymal 16(5) yn diwygio adran 112 PPERA mewn perthynas â threuliau refferendwm tybiannol.
18. Mae cymal 17(2)(a) o'r Bil yn diwygio pŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi cod ymarfer gan y Comisiwn Ewropeaidd o dan baragraff 14A o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Diben y diwygiadau a wneir gan y cymal hwn yw ei gwneud yn glir y gall y cod ymarfer gynnwys cymhwyso'r rheolau mewn perthynas â threuliau yr eir iddynt at ddibenion etholiad ymgeisydd.
19. Mae cymal 17(2)(b) o'r Bil hefyd yn diwygio pŵer Gweinidogion Cymru ym mharagraff 14A(7)(b) o Atodlen 4A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i ddynodi'r dyddiad y daw cod ymarfer o dan baragraff 14A i rym. Mae'r ddarpariaeth hon yn diwygio is-baragraff 14A(7)(b) o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i bennu bod y gorchymyn sy'n dod â'r cod ymarfer i rym yn offeryn statudol.
20. Mae angen cydsyniad ar gyfer cymal 17(2) gan fod y darpariaethau hyn yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru.
21. Mae cymal 18 o'r Bil yn gwneud diwygiadau i Adran 73 o PPERA i egluro bod yn rhaid i'r treuliau fod wedi'u hawdurdodi. Byddai diwygiadau o'r fath sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig unigol o fewn cymhwysedd y Senedd.
22. Nid yw'r diwygiadau hyn sy'n ymwneud â gwariant tybiannol yn cynnwys ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd. Yn achos ymgeisydd yn un o Etholiadau'r Senedd, ni fydd yn ofynnol awdurdodi defnyddio eiddo, nwyddau, gwasanaethau na chyfleusterau ar ran yr ymgeisydd hwnnw, ond mewn perthynas â phleidiau gwleidyddol bydd y gofynion awdurdodi yn berthnasol.
23. Mae adran 64 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymgeiswyr yn Etholiadau'r Senedd sy'n debyg i'r ddarpariaeth yn adran 90C o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ar gyfer ymgeiswyr mewn etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru (a ddiwygiwyd gan Gymal 16(1) o'r Bil). Heb ddiwygio Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 mae posibilrwydd o ddatblygu dull dwy haen yng Nghymru o ran gwariant ymgyrchu a'r angen i awdurdodi.

Cyllid gwleidyddol (cymalau 22 – 25)

24. Ar hyn o bryd, caiff ymgyrchwyr trydydd parti tramor wario'n gyfreithlon ar etholiadau'r DU o dan drothwyon cofrestru ymgyrchwyr trydydd parti cydnabyddedig, a dim ond ar ôl i'r trothwyon gael eu pasio y daw'r gweithgarwch hwn yn anghyfreithlon. Dim ond grwpiau/unigolion yn y DU neu etholwyr tramor cofrestredig sy'n cael cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol fel ymgyrchwyr trydydd parti. Mae cymal 22 o'r Bil hwn yn mewnosod adran 89A newydd yn PPERA i ddileu'r posibilrwydd o unrhyw wariant cyfreithlon gan ymgyrchwyr trydydd parti tramor o dan y trothwy

cofrestru ond yn uwch na 'de minimis' o £700. Bydd cynnwys darpariaeth o'r fath yn creu cydbwysedd rhwng y dymuniad i wahardd gwariant gan endidau tramor a'r dymuniad i beidio â thrin achosion lefel isel o dorri'r rheolau, a allai fod yn anfwriadol ac sy'n annhebygol o gael effaith andwyol ar etholiad, fel troseddau.

25. Mae cymal 23 yn creu pŵer i wneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig ddiwygio adran 88(2) o PPERA i'r perwyl o ddiwygio drwy ychwanegu, dileu neu amrywio disgrifiadau o drydydd partiön. Nid oes dyletswydd i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, er gwaethaf y goblygiadau i etholiadau datganoledig.
26. Mae cymal 24 yn diwygio gwahanol adrannau o PPERA i'w gwneud yn ofynnol i ymgyrchwyr trydydd parti hysbysu'r Comisiwn Etholiadol am lefel is o wariant nag sy'n ofynnol ar hyn o bryd, gan greu i bob pwrpas system ddwy haen ar gyfer cofrestru. Bydd yr haen 'is' newydd hon yn gymwys pan fydd ymgyrchydd trydydd parti yn bwriadu gwario mwy na £10,000 ar wariant rheoledig yn ystod cyfnod a reoleiddir ar draws y DU, neu mewn unrhyw ran(nau) cyfansoddol ohoni, ond gwariant sy'n is na'r trothwyon cofrestru presennol sy'n benodol i'r wlad, sy'n gweithredu fel eu terfyn uchaf. Mae'r holl fesurau hyn yn berthnasol i wariant cymwys yn unig, ac nid i ymgyrchu ehangach, anstatudol, y gall grwpiau ymgymryd ag ef. Felly, bydd yr ymgyrchwyr trydydd parti haen is yn ddarostyngedig i'r lefel isaf o reoleiddio sy'n angenrheidiol i sicrhau eu bod yn endid yn y DU neu'n endid tramor cymwys.
27. Mae cymal 25 yn diwygio adran 94(6) o PPERA i wneud darpariaeth fel y bydd ymgyrchwyr trydydd parti a phleidiau gwleidyddol sy'n cydweithio ar ymgyrch ar y cyd yn rhoi gwybod am unrhyw wariant cysylltiedig ac yn nodi'r partiön sy'n rhan o'r trefniant. Nod hyn yw sicrhau nad yw ymgyrchwyr yn gallu osgoi eu terfynau gwariant drwy ddefnyddio gwariant cydgysylltiedig.
28. Gallai Senedd Cymru ddeddfu yn y maes hwn mewn perthynas â gwariant ymgyrchu ar gyfer etholiadau datganoledig annibynnol.

Bygwth (cymalau 26 – 30 a chymalau 32 – 34)

29. Mae'r Bil hwn yn cyflwyno sanctsiwn etholiadol newydd ar ffurf gorchymyn anghymhwyso a osodir gan y Llysoedd, y bwriedir iddo roi amddiffyniad ychwanegol i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn etholiadau ac sy'n cyfrannu at y ddadl wleidyddol, ac atal unigolion rhag cyflawni gweithredoedd bygythiol. Gellir gosod y gorchymyn anghymhwyso ar berson a gollfarnwyd am drosedd (fel y nodir yn Atodlen 8 i'r Bil) a symbylwyd gan elyniaeth tuag at ymgeisydd, ymgeisydd yn y dyfodol, dirprwy neu enwebai (yng Ngogledd Iwerddon), ymgyrchydd neu ddeiliad swydd etholiadol berthnasol. Effaith y gorchymyn anghymhwyso newydd yw anghymhwysiad pum mlynedd rhag sefyll ar gyfer rhai swyddi etholiadol, cael eich ethol iddynt neu eu dal.

30. Mae cymal 32 yn darparu i Weinidogion Llywodraeth y DU yn unig ddiwygio'r rhestr o droseddau bygythiol y mae'r gorchymyn anghymhwysu yn gymwys iddynt drwy offeryn statudol ac fel y nodir yn Atodlen 8. Nid oes dyletswydd i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, er gwaethaf y goblygiadau i etholiadau datganoledig.
31. Mae cymal 33 yn rhoi diffiniad o'r swydd etholiadol berthnasol y byddai'r gorchymyn anghymhwysu yn gymwys iddi ac sy'n cynnwys goblygiadau i Aelodau'r Senedd, aelodau awdurdod lleol yng Nghymru a meiri.
32. Mae cymal 34 yn rhoi effaith i Atodlen 9, sy'n diwygio'n uniongyrchol adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (effaith anghymhwysu) i'r perwyl, os bydd Aelod o'r Senedd yn cael ei anghymhwysu yn rhinwedd gorchymyn anghymhwysu o dan adran 27 o'r Bil, mae'r person yn peidio â bod yn aelod o'r Senedd ac mae sedd y person yn wag.
33. Mae gan y ddarpariaeth hon oblygiadau uniongyrchol i Aelodau'r Senedd, aelodau awdurdod lleol yng Nghymru a meiri. Felly ystyrir bod angen cydsyniad y Senedd.

Argraffnod Digidol (cymalau 35 – 56)

34. Mae'r Bil yn cyflwyno trefn newydd o ran argraffnod digidol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n talu am ddeunydd gwleidyddol digidol gael ei hysbysebu i ddangos yn benodol pwy ydyw ac ar ran pwy y mae'n hyrwyddo'r deunydd. Mae deunydd â thâl yn ddeunydd hysbysebu y telir amdano, lle'r aethpwyd i gostau er mwyn hyrwyddo neu ddsbarthu'r deunydd. I'r gwrthwyneb, mae deunydd di-dâl yn ddeunydd organig nad oedd unrhyw gostau'n gysylltiedig â'i hyrwyddo na'i ddsbarthu. Bydd hefyd yn ofynnol i ymgyrchwyr (pleidiau gwleidyddol cofrestredig, ymgeiswyr, ymgeiswyr yn y dyfodol, ymgyrchwyr trydydd parti cydnabyddedig, ymgyrchwyr refferendwm, deiliaid swydd etholedig ac ymgyrchwyr deisebau adalw) hefyd gynnwys argraffnod ar eu deunydd organig (di-dâl) os yw'n gyfystyr ag etholiad digidol, refferendwm neu ddeunydd deiseb adalw.
35. Mae Cymal 35, sy'n nodi diffiniad o "deunydd electronig", "hyrwyddwr" a "cyhoeddwr" sy'n sbarduno'r rhwymedigaeth i gymeradwyo'r deunydd electronig, yn darparu mai'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig a gaiff addasu'r diffiniadau hyn, drwy is-ddeddfwriaeth. Nid oes dyletswydd i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, er gwaethaf y goblygiadau i etholiadau datganoledig.
36. Mae cymal 40 yn rhoi diffiniad o etholiad perthnasol at ddibenion y deunydd di-dâl sy'n cynnwys etholiad i Senedd Cymru, etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac etholiadau meiri.
37. Mae cymal 49 yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i gyhoeddi canllawiau ar weithredu a gorfodi'r gyfundrefn argraffnod digidol. Caiff y canllawiau eu cymeradwyo gan Weinidogion Llywodraeth y DU yn unig. Mae hyn er gwaethaf eu goblygiadau i etholiadau datganoledig

38. Ein barn ni yw bod y darpariaethau hyn, o'u hystyried gyda'i gilydd mewn perthynas ag etholiadau datganoledig, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gan mai eu bwriad yw rheoleiddio tryloywder deunydd etholiadol a gyhoeddir ar-lein a sicrhau bod y rhai sy'n darllen ac yn derbyn y deunydd etholiadol hwnnw'n deall pwy sydd wedi cyhoeddi deunydd ar-lein.

Cyffredinol (cymalau 57 a 58)

39. Mae cymal 57 yn darparu mai dim ond un o Weinidogion y DU a gaiff ddiwygio unrhyw ddarpariaeth yn y Bil drwy offeryn statudol, neu unrhyw ddarpariaeth a ddiwygir gan y Bil hwn mewn Deddfau eraill, o ganlyniad i ddiwygio neu ddirymu unrhyw is-ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn y Bil, a allai gynnwys Mesur neu Ddeddf gan Senedd Cymru.

40. Mae cymal 58 yn darparu y bydd Senedd y DU yn talu am unrhyw gostau y mae un o Weinidogion Llywodraeth y DU yn mynd iddynt o ganlyniad i'r Bil ac yn talu am unrhyw gostau uwch o dan Ddeddf Seneddol bresennol os byddant yn codi o ganlyniad i'r Bil hwn. Mae hefyd yn darparu y bydd unrhyw gynnydd mewn taliadau a wneir o Gronfa Gyfunol y DU yn cael ei dalu, os bydd y taliadau'n codi o ganlyniad i'r Bil hwn ac os eir iddynt o dan Ddeddf Seneddol sy'n bodoli eisoes.

41. Gellid defnyddio cymal 57 i ddiwygio unrhyw un o'r darpariaethau sy'n effeithio ar etholiadau datganoledig a gallai cymal 58 fod â goblygiadau posibl i Gronfa Gyfunol Cymru a chyllido etholiadau datganoledig ac felly maent yn ganlyniadol i ddarpariaeth ddatganoledig. Felly, ystyrir bod angen cydsyniad y Senedd.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Etholiadau

42. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyflwyno prawf adnabod ar gyfer pleidleiswyr, gosod cyfyngiadau diangen ar bleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy, nac estyn yr etholfraint dramor. Rydym yn fodlon nad yw'r Bil yn gwneud y rhain yn gymwys i Gymru, ond rydym yn pryderu am ganlyniadau anfwriadol posibl megis dryswch i bleidleiswyr ac ymgeiswyr a chymhlethdod i weinyddwyr.

43. Rydym yn pryderu nad yw'r darpariaethau yn y Bil ynghylch atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol, fel y'u drafftwyd ar hyn o bryd, yn gydnaws â'r trefniadau atebolrwydd, a sefydlwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, rhwng y Comisiwn Etholiadol a Phwyllgor y Llywydd yn y Senedd.

44. Efallai y bydd gan gynigion eraill yn y Bil rinweddau ac y gallai'r achos dros eu gweithredu ar gyfer etholiadau datganoledig, os ydynt yn cyd-fynd â pholisïau Llywodraeth Cymru, gael ei gryfhau os byddai gwneud hynny'n sicrhau'r eglurder mwyaf posibl i bleidleiswyr, ymgeiswyr a gweinyddwyr. Fodd bynnag, yn hytrach na gwneud darpariaeth drwy'r Bil hwn, byddai'n

well gennym ymgynghori â'n rhanddeiliaid a chyflwyno deddfwriaeth i'r Senedd maes o law.

45. Er y byddai cynnwys y materion a godwyd yn y Bil yn ein deddfwriaeth ein hunain yn golygu gweithio yn ôl gwahanol amserlenni, mae effaith hyn yn debygol o fod yn fach. Ni fydd darpariaethau'r Bil mewn grym mewn pryd i fod yn gymwys i etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru ym mis Mai 2022, ac mae amser i gyflwyno ein deddfwriaeth ein hunain cyn etholiad nesaf y Senedd yn 2026. Felly, nid yw hwn yn un o'r achlysuron hynny lle byddai'n ddefnyddiol manteisio ar Fil y DU i wneud darpariaeth frys.
46. Gan nad oes mantais amseru o ran gwneud darpariaeth ddatganoledig o fewn y Bil hwn, gallwn flaenoriaethu egwyddorion eraill o fewn ein dull cyffredinol o ddeddfu. Rydym wedi ymrwmo i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yn unol â Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, ac mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun cyfraith etholiadol gymhleth. Byddai'n well gennym gydgrynhoi'r gyfraith cyn belled ag y bo modd, ac yn bwysig ei gwneud yn ddwyieithog, o fewn deddfwriaeth y Senedd – yn hytrach na chaniatáu'r darnio pellach y byddai'r Bil hwn yn ei greu.
47. Fodd bynnag, rwyf wedi cytuno gyda Llywodraeth y DU y byddaf yn ystyried ymhellach y cynigion yn y Bil sydd o bosibl yn cynnwys rhinweddau. Yn benodol, byddaf eisiau sicrhau fi fy hun, a'r Senedd, nad oes anfanteision sylweddol ac uniongyrchol i bleidleiswyr a rhanddeiliaid yng Nghymru wrth ddilyn y cynigion hyn yn neddfwriaeth Cymru yn y dyfodol, yn hytrach nag yn y Bil hwn.

Goblygiadau ariannol

48. Rydym yn pryderu y bydd newidiadau a amlinellir yn y Bil yn cael effaith ar etholiadau datganoledig, gan gynnwys gosod beichiau ychwanegol ar awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â gweinyddu'r ddogfen hunaniaeth etholiadol, lle mae'r Bil hefyd yn cyflwyno cerdyn pleidleiswyr lleol a fydd yn fath o adnabyddiaeth y gellir ei gael gan awdurdod lleol a'i ddefnyddio at ddibenion adnabod mewn gorsaf bleidleisio. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU dalu'r gost hon yn llawn yn unol â'r Datganiad o Bolisi Ariannu.
49. Mae gwariant y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru, i'r graddau na ellir ei dalu drwy incwm a dderbynnir gan y Comisiwn, yn cael ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru, yn unol ag adran 28 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. Mae'r Bil yn gosod rhwymedigaeth bellach ar y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig nad ydynt wedi bod yn rhan o'n gofynion cyllidebol hyd yma. Dylai rhwymedigaethau cyllidebol arfaethedig godi o ganlyniad uniongyrchol i ddeddfwriaeth yr ymglymerir â hi gan y Senedd mewn perthynas ag etholiadau datganoledig.
50. Credwn nad yw'r ddyletswydd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar y Strategaeth a'r Datganiad Polisi arfaethedig, o ran y modd y mae'r drafft

yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn sydd wedi'u datganoli i Gymru, yn ddigonol.

51. Er enghraifft, gallai'r Strategaeth a'r Datganiad Polisi, a ddyroddir heb gynnwys y Senedd, arwain at gostau ychwanegol i'r Comisiwn Etholiadol a fyddai, mewn meysydd datganoledig, yn gorfod cael eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru, yn amodol ar gytundeb gan y Senedd.

Casgliad

52. Yn fy marn i, nid yw'n briodol ymdrin â'r darpariaethau a ddisgrifir uchod yn y Bil hwn gan Senedd y DU. Er fy mod yn gweld manteision ymdrin â rhai o'r materion yn y Bil hwn ar gyfer etholiadau datganoledig, fy newis i, yn amodol ar ystyriaeth bellach fel rwy'n nodi uchod, yw gwneud hynny drwy ddeddfwriaeth y Senedd maes o law. Felly, ni allaf ar hyn o bryd argymhell cydsyniad i'r Bil. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU gyda'r bwriad o geisio gwelliannau i'r Bil i adlewyrchu ein safbwynt polisi.

Mick Antoniw AS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

9 Medi 2021